Rhif: WG41373

Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

# Astudiaeth Drafnidiaeth yr A483 Llandeilo a Ffair-fach Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru Cam 2

Dyddiad cyhoeddi: 29 Medi 2020
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 20 Tachwedd 2020

This document is also available in English.
Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.

OGL © Hawlfraint y Goron

| | |
|---|---|
| **Trosolwg** | Mae'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gynnal i ofyn am eich barn ar yr opsiynau trafnidiaeth arfaethedig sy'n cael eu harchwilio i fynd i'r afael â materion sy'n peri pryder ar y rhwydwaith priffyrdd presennol, o fewn aneddiadau Llandeilo a Ffair-fach.<br><br>Hoffem glywed eich barn ar yr opsiynau arfaethedig ar y rhestr fer a'r cwestiynau penodol oedd wedi'u cynnwys yr holiadur hwn. |
| **Sut i ymateb** | Llenwch a dychwelwch yr 'holiadur ffurflen ymateb' a'i ddychwelyd drwy e-bost neu drwy'r post i'r manylion cyswllt isod. Mae croeso i ymatebion yn Gymraeg neu yn Saesneg a dylent gael eu cyflwyno erbyn dydd Gwener 20 Tachwedd 2020.<br><br>Cyfeiriwch at yr adran **'Sut galla i gyflwyno sylwadau?'** yn y ddogfen hon hefyd. |
| **Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** | **Gallwch wneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**<br><br>https://llyw.cymru/a483-astudiaeth-trafnidiaeth-ar-gyfer-llandeilo-a-ffairfach-weltag-cam-2 |
| **Manylion cysylltu** | Drwy'r post:<br><br>Rhadbost<br>Astudiaeth Drafnidiaeth yr A483<br><br>E-bost:<br><br>A483-Llandeilo@capita.co.uk |

## Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth i chi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hwn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n ymdrin â'r materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Dim ond o dan gontract yr ymgymerir â gwaith o'r fath. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a chadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn hefyd. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod i ni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth hefyd.

Os caiff eich manylion eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd unrhyw ddata amdanoch a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

## Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i gael gwybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'i weld
- i'w gwneud yn ofynnol i ni gywiro gwallau yn y data hwnnw
- i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data (o dan rai amgylchiadau)
- i gael 'dileu' eich data (o dan rai amgylchiadau)
- i gludadwyedd data (o dan rai amgylchiadau)
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am y wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ

e-bost:
Data.Protection Officer@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113
Gwefan: https://ico.org.uk/

**Cyflwyniad**
Mae'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gynnal i ofyn am eich barn ar yr opsiynau trafnidiaeth arfaethedig sy'n cael eu harchwilio i fynd i'r afael â materion sy'n peri pryder ar y rhwydwaith priffyrdd presennol, o fewn aneddiadau Llandeilo a Ffair-fach.

Rydym wedi adolygu nifer o opsiynau i wella'r rhwydwaith priffyrdd ac rydym yn gofyn yn awr am eich adborth ar y cynigion hyn.

**Beth yw'r prif faterion?**
O weithdai cyhoeddus a rhanddeiliaid blaenorol, nodwyd y prif faterion canlynol sy'n peri pryder:

- Diogelwch;
- Cyflymder Traffig;
- Cyfyngiadau'r rhwydwaith;
- Parcio;
- Natur dymhorol llif y traffig;
- Llwybrau dargyfeirio annigonol;
- Amgylchedd defnyddwyr nad ydynt yn fodurwyr;
- Dim seilwaith beicio;
- Dynodi llwybrau i ddefnyddwyr nad ydynt yn fodurwyr;
- Ansawdd cludiant cyhoeddus;
- Llygredd;
- Sŵn.

**Lle rydym ni arni nawr?**
Nododd astudiaeth Cam 1 Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG) 11 o opsiynau ar y rhestr fer a gyflwynwyd i chi yn y Digwyddiad Ymgynghori â'r Cyhoedd ym mis Ebrill 2019 (mae'r dolenni i ddeunydd ymgynghori cam 1 i'w weld yn https://llyw.cymru/a483-astudiaeth-trafnidiaeth-ar-gyfer-llandeilo-ffairfach). Dyrannwyd pob un o'r 11 opsiwn yn fandiau cost ac fe'u dangosir isod:


(Isel) Llai na £50 miliwn

(Canolig) £50 miliwn i £60 miliwn

(Uchel) Mwy na £60 miliwn

| Cyfeirnod yr Opsiwn | Disgrifiad o'r Opsiwn |
|---|---|
| NB1 | Goleuadau traffig ar Heol Rhosmaen, dim ffordd osgoi |
| NB2 | Dileu parcio ar Heol Rhosmaen, dim ffordd osgoi |
| NB5 | Cyfyngiad HGV (cosb gyfreithiol ar Heol y Bont a Heol Rhosmaen) dim ffordd osgoi, ynghyd â system unffordd |
| NB6 | Opsiwn cyfun (NB1 a NB2) dim ffordd osgoi (gyda chyfyngiad HGV) |
| NB7 | Opsiwn cyfun (NB1 a NB2) dim ffordd osgoi (dim cyfyngiad HGV) |
| TC1A | System unffordd ar Heol Rhosmaen a ffordd osgoi |
| BE1A | Ffordd Osgoi Ddwyreiniol Opsiwn 1 (A) |
| BE1B | Ffordd Osgoi Ddwyreiniol Opsiwn 1 (B) |
| BE1C | Ffordd Osgoi Ddwyreiniol Opsiwn 1 (C) |
| BE4D | Ffordd Osgoi ddwyreiniol Canol Rhosmaen Opsiwn 4 (D) |
| BE6 | Ffordd Osgoi Ddwyreiniol Opsiwn 6 |

Diolchwn i chi am yr adborth a gafwyd ac rydym wedi gwrando ar eich awgrymiadau, eich pryderon a'ch dewisiadau. Isod ceir crynodeb o'ch dymuniadau o ran dewisiadau a



dderbyniwyd ym mis Ebrill 2019.

Ers y digwyddiad ymgynghori ym mis Ebrill 2019, rydym wedi ymgymryd â gwaith ymchwilio pellach ac wedi cynnal trafodaethau gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid. Mae pob opsiwn wedi'i fesur yn erbyn amcanion y prosiect isod ac mae ein canfyddiadau wedi'u gwerthuso hefyd gan banel adolygu annibynnol sy'n cynnwys sawl arbenigwr yn eu maes.

**Amcanion y Prosiect**

- Cadw swyddogaeth strategol yr A483
- Gwella diogelwch cerddwyr a beicwyr yn Llandeilo a Ffair-fach, gan gynnwys llwybrau diogel i'r ysgol;
- Lleihau hollti cymunedol yn Llandeilo a Ffair-fach;
- Gwella dibynadwyedd amser siwrneiau drwy Landeilo a Ffair-fach;
- Lleihau tagfeydd drwy Landeilo a Ffair-fach;
- Cyfrannu at dwf economaidd cynaliadwy a thwristiaeth a chyfleoedd diwylliannol yn Llandeilo;
- Lleihau cysylltiad â llygredd aer ar gyfer derbynyddion sensitif; a
- Chefnogi'r broses o bontio i gymdeithas carbon isel gan sicrhau bod yr ateb yn gynaliadwy ac yn wydn ac yn lleihau allyriadau carbon sy'n gysylltiedig â'r seilwaith trafnidiaeth sy'n cynnwys gwella mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus a'r ddarpariaeth o drafnidiaeth gyhoeddus. Diben yr ymgynghoriad hwn yw cael eich barn ar y rhestr fer o opsiynau sydd wedi'i datblygu a chyfleoedd ategol ychwanegol i Landeilo a Ffair-fach.

Er bod opsiynau NB5 a NB6 wedi sgorio'n uchel yn yr ymgynghoriad diwethaf rydym wedi adolygu'r agweddau ymarferol ar gael gwared ar gerbydau HGV (Opsiwn NB5 a DS6) o Landeilo a Ffair-fach ac yn dod i'r casgliad y byddai hyn yn anodd iawn ei weithredu heb seilwaith ychwanegol, gan nad oes dewisiadau amgen ymarferol ar hyn o bryd. At hynny, byddai gorfodi a neu reoli unrhyw waharddiad ar gerbydau HGV yn anodd, gan y byddai angen o hyd i rai cerbydau mawr ddosbarthu nwyddau yn Llandeilo a Ffair-fach, ynghyd â cherbydau amaethyddol lleol a bysiau sydd angen cyrraedd ardaloedd yn y cyffiniau.

Ni sgoriodd BE4D a BE6 yn ffafriol yn yr ymgynghoriad cyhoeddus, gyda'r cyhoedd yn eu graddio yn hanner isaf yr opsiynau a gyflwynwyd. O safbwynt eu hadeiladu, bydd y ddau opsiwn yn her i'w gweithredu. Byddai Opsiwn BE4D yn gofyn am groesi Afon Tywi a'r rheilffordd (byddai angen croesi'r rheilffordd ddwywaith) a fyddai'n gofyn am strwythur sylweddol. Byddai gan opsiwn BE6 anawsterau rhyngwyneb yng nghyffiniau pont hanesyddol yr afon, ynghyd â'r effaith weledol ychwanegol a fyddai'n cael ei chreu wrth i'r ddau strwythur fod yn agos at ei gilydd. O ganlyniad, ni chafodd yr un o'r opsiynau hyn eu hystyried yn y rhestr fer ddiwygiedig o opsiynau.

O ganlyniad, mae proses WelTAG Cam 2 wedi rhoi'r 4 opsiwn canlynol ar gyfer ymgynghori ar y rhestr fer.

- NB7: Opsiwn Cyfun Dim Ffordd Osgoi (Dim cyfyngiad HGV)
- TC1A: System unffordd ynghyd â'r naill Opsiwn Ffordd Osgoi neu'r llall:

- BE1A: Ffordd Osgoi Ddwyreiniol Opsiwn 1 (A);
- BE1B: Ffordd Osgoi Ddwyreiniol Opsiwn 1 (B);
- BE1C: Ffordd Osgoi Ddwyreiniol Opsiwn 1 (C).

Er mwyn gwella'r 4 opsiwn ar y rhestr fer, rydym wedi datblygu cyfres o gyfleoedd ategol posibl i wella llif traffig, cerdded a beicio yng nghydgymunedau Llandeilo a Ffair-fach.

Rydym yn croesawu eich barn a'ch adborth ar y 4 prif opsiwn ar y rhestr fer a chyfleoedd ategol posibl.

**Sut galla i gael gwybod mwy?**
Mae deunydd ymgynghori ar gael ar ein gwefan **(**https://llyw.cymru/a483-astudiaeth-trafnidiaeth-ar-gyfer-llandeilo-a-ffairfach-weltag-cam-2) o ddydd Mawrth 29 Medi ymlaen. Bydd cyfle ar y wefan i ofyn cwestiynau a rhoi sylwadau ar yr opsiynau a'r wybodaeth sydd ar gael.

Yn amodol ar ganllawiau Llywodraeth Cymru ar COVID-19, bwriadwn gynnal digwyddiad ymgynghori byw yn Llandeilo a Ffair-fach ym mis Hydref 2020. Y lleoliadau arfaethedig yw Neuadd Bentref Llandeilo Fawr a Chanolfan Chwaraeon Tregib, Ffair-fach.

**Sut galla i gyflwyno sylwadau?**
Mae sawl ffordd y gallwch chi gyflwyno sylwadau:

- llenwi'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad sydd ar ddiwedd y ddogfen hon a'i dychwelyd atom yn Rhadbost Astudiaeth Drafnidiaeth yr A483; neu
- llenwi'r ffurflen ymateb ar-lein yn: https://llyw.cymru/a483-astudiaeth-trafnidiaeth-ar-gyfer-llandeilo-a-ffairfach-weltag-cam-2 neu
- mynychu un o'n digwyddiadau ymgynghori (yn amodol ar ganllawiau COVID-19) lle bydd copïau papur o'r ffurflen ymateb ar gael; neu
- anfon e-bost atom yn: A483-Llandeilo@capita.co.uk.

Croesawn ymatebion Cymraeg neu Saesneg a dylid eu cyflwyno erbyn dydd Gwener 20 Tachwedd 2020.

**Y Camau Nesaf**

Byddwn yn adolygu'r holl sylwadau ac awgrymiadau unwaith y bydd cyfnod adborth yr ymgynghori wedi dod i ben. Cânt eu dadansoddi a'u hystyried fel rhan o broses WelTAG. Byddwn yn cynhyrchu adroddiad i grynhoi'r ymatebion adborth hefyd.

Bydd y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y cynllun yn cael ei rhoi ar wefan y prosiect: https://llyw.cymru/a483-llandeilo

## Ymgynghori
## Ffurflen Ymateb

Eich enw:

Sefydliad (lle bo’n berthnasol):

E-bost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

**C1:** Ydych chi'n cytuno â'r prif faterion sy'n wynebu Llandeilo a Ffair-fach? Nodwch isod pa broblemau rydych chi wedi'u profi yn ystod y 12 mis diwethaf (dewiswch unrhyw nifer o opsiynau ar gyfer cwestiwn 1)

| | **Ticiwch bob un rydych yn ei brofi** |
|---|---|
| Diogelwch: damweiniau fu bron â digwydd rhwng cerddwyr a cherbydau sy'n mynd heibio | |
| Diogelwch: damweiniau traffig | |
| Amseroedd teithio annibynadwy | |
| Diffyg mannau parcio | |
| Dim llwybrau amgen drwy'r rhwydwaith ffyrdd | |
| Amgylchedd gwael i gerddwyr a beicwyr | |
| Dim darpariaeth ar gyfer beicwyr | |
| Ansawdd a chysylltedd gwael o ran trafnidiaeth gyhoeddus | |
| Anawsterau dod o hyd i'ch ffordd fel beiciwr / cerddwr | |
| Llygredd aer oherwydd traffig | |
| Llygredd sŵn oherwydd traffig | |

Arall (nodwch):

| |
|---|
| |

**C2:** Rydym wedi adolygu'r agweddau ymarferol ar gyfer cael gwared ar gerbydau HGV o Landeilo a Ffair-fach ac yn dod i'r casgliad y byddai'n anodd iawn gweithredu hyn heb seilwaith ychwanegol, gan nad oes dewisiadau amgen ymarferol ar hyn o bryd. Pa opsiwn ydych chi'n credu sydd orau i symud ymlaen ag ef? (Dewiswch 1 opsiwn ar gyfer cwestiwn 2)

| | **Ticiwch eich dewis** |
|---|---|
| Gwneud dim (aros fel y mae) | |

| | |
|---|---|
| NB7: Traffic lights on Rhosmaen Street and removal of parking and loading areas | |
| NB7: Goleuadau traffig ar Heol Rhosmaen a chael gwared ar fannau parcio a llwytho ar Heol Rhosmaen | |
| TC1A gyda BE1A: opsiwn ffordd osgoi 1 (A) | |
| TC1A gyda BE1B: opsiwn ffordd osgoi 1 (B) | |

**C3:** Fel rhan o'r astudiaeth hon, rydym wedi ymchwilio i opsiynau i gysylltu Llandeilo a'r Orsaf Reilffordd.

| | **Ticiwch eich dewis** |
|---|---|
| Cynnal y mynediad presennol ar hyd Heol yr Orsaf a darparu grisiau newydd sy'n cydymffurfio (iechyd a diogelwch) o Heol Alan. Mae'r opsiwn hwn wedi'i gynnwys yn yr amcangyfrif o gostau adeiladu'r ffordd osgoi. | |
| Darparu grisiau newydd sy'n cydymffurfio (iechyd a diogelwch) a mynediad drwy ramp o Heol Alan, am gost adeiladu ychwanegol o £1.8 miliwn. | |
| Darparu grisiau newydd sy'n cydymffurfio (iechyd a diogelwch) a lifft o Heol Alan am gost adeiladu ychwanegol o £1.5 miliwn (ac eithrio costau gweithredol a chynnal a chadw ychwanegol). | |
| Darparu grisiau newydd sy'n cydymffurfio (iechyd a diogelwch) a gwelliannau i gysylltiadau cerddwyr rhwng canol y dref a'r orsaf reilffordd. Gellid gwneud gwelliannau cerdded a beicio (Cyf CL4) i Heol Caerfyrddin, Heol Rhosmaen, Heol Newydd, Heol Cilgant, Heol Latimer, Heol Alan, Heol Tomos, Maes Mwyn a Heol yr Orsaf. | |

**C4:** Fel rhan o'r astudiaeth hon, rydym wedi datblygu cyfleoedd lleol i wella'r ddarpariaeth o ran trafnidiaeth, beicio ac i gerddwyr o amgylch tref Llandeilo a phentref Ffair-fach. Nodwch eich dewis. (dewiswch hyd at 11 opsiwn ar gyfer cwestiwn 4)

| | **Ticiwch eich dewis** |
|---|---|
| Maes parcio cyhoeddus newydd yn Ffair-fach (Cyf. CF1) | |
| Maes parcio cyhoeddus newydd yn Ffair-fach (Cyf. CF8) | |
| Maes parcio cyhoeddus newydd yn Llandeilo (Cyf. CL6) | |
| Maes parcio cyhoeddus newydd yn Llandeilo (Cyf. CL7) | |
| Maes parcio cyhoeddus newydd yn Llandeilo (Cyf. CL8) | |
| Maes parcio cyhoeddus newydd yn Llandeilo (Cyf. CL9) | |
| Cyffordd wedi'i rheoli gan signalau yn sgwâr Ffair-fach (Cyf. CF3) | |
| Gwell cysylltiadau i gerddwyr i orsaf reilffordd Ffair-fach (Cyf. CF4) | |
| Gwelliannau i droedffyrdd Ffair-fach (Cyf. CF5) | |

| | |
|---|---|
| Gwell mynediad i gerbydau i Ysgol Bro Dinefwr (Cyf. CF6) | |
| Llwybr Dyffryn Tywi yn cysylltu Ysgol Bro Dinefwr â Phont Llandeilo (Cyf. CF7) | |

Sylwadau ar yr uchod neu unrhyw gyfleoedd eraill?

| |
|---|
| |

**C5:** Mae Opsiwn DS7 yn ei gwneud yn ofynnol i gael gwared ar fannau parcio a llwytho ar hyd Heol Rhosmaen a Heol y Bont. Rydym wedi adolygu'r potensial ar gyfer ailddyrannu gofod ym maes parcio cyhoeddus Heol Cilgant. A fyddech chi o blaid y dull hwn?

Byddwn ☐ Na fyddwn ☐

Os nad ydych o blaid, nodwch pam:

| |
|---|
| |

**C6:** Mae'r gwasanaeth bws presennol i Orsaf Reilffordd Llandeilo yn gyfyngedig. Pe bai'r gwasanaeth yn cael ei wella (Cyf. CL4) a fyddai hyn yn eich annog i ddefnyddio'r rhwydwaith rheilffyrdd yn amlach?

| | **Ticiwch eich dewis** |
|---|---|
| Byddai, byddwn yn defnyddio bws i gysylltu â'r orsaf | |
| Byddai, ond dim ond yn achlysurol | |
| Na fyddwn | |

**C7:** Mae angen pont newydd dros Afon Tywi ar bob opsiwn ffordd osgoi. Mae tri opsiwn wedi'u hystyried, pa un yw eich ateb dewisol?

| | **Ticiwch eich dewis** |
|---|---|
| Opsiwn 1: Traphont gyfansawdd tri lled | |
| Opsiwn 2: Bwa llinyn bwa | |
| Opsiwn 3: Traphont gyfansawdd pedwar lled | |

**C8:** Rydym wedi nodi cyfleoedd cerdded a beicio ategol ar gyfer Llandeilo. Pa welliannau fyddai o'r budd mwyaf yn eich barn chi? (dewiswch hyd at ddau opsiwn ar gyfer cwestiwn 3)

| | **Ticiwch eich dewis** |
|---|---|
| Cyfyngiadau amser llawn ar draffig trwodd ar Heol Rhosmaen (dim ond gydag opsiwn ffordd osgoi y gellir darparu hyn) (Cyf. CL1) | |
| Cyfyngiadau rhan-amser ar draffig trwodd ar Heol Rhosmaen (dim ond gydag opsiwn ffordd osgoi y gellir darparu hyn) (Cyf. CL2) | |
| Gwelliannau cerdded a beicio i'r rhwydwaith cerddwyr ehangach (Cyf. CL3) | |

Arall (nodwch unrhyw gyfleoedd eraill y teimlwch y byddent yn ychwanegu budd):

| |
|---|
| |

**C9:** Mae beiciau trydan yn gwneud beicio'n haws, yn enwedig ar raddiant serth. Pebaem yn cyflwyno treial i ddarparu beiciau trydan yn Llandeilo a Ffair-fach (Cyf. CF2), a fyddech chi'n ystyried eu defnyddio fel dewis amgen i gerbydau preifat?

Byddwn ☐ Na fyddwn ☐

**C10:** Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn datblygu Strategaeth Drafnidiaeth nesaf Cymru a allai gynnwys ffocws ar symud i ddulliau trafnidiaeth carbon is i fodloni targedau datgarboneiddio Llywodraeth Cymru a lleihau nifer yr Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer. Nod Llywodraeth Cymru yw cael fflyd o fysiau, tacsis a cherbydau hurio preifat heb allyriadau erbyn 2028 (Cyf CL5). Ydych chi'n cefnogi'r nodau hyn?

Byddwn ☐ Na fyddwn ☐

**Cwestiwn A**: Byddem yn hoffi clywed eich barn am yr effaith y byddai’r cynllun gweithgynhyrchu yn ei chael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.

| |
|---|
| |

**Cwestiwn B**: Eglurwch hefyd sut rydych chi'n credu y gallai'r polisi arfaethedig ar gyfer Astudiaeth Drafnidiaeth yr A483 Llandeilo i Ffair-fach gael ei lunio neu ei newid er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

| |
|---|
| |

**Cwestiwn C**: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw'n benodol, defnyddiwch y lle hwn i sôn amdanynt:

| |
|---|
| |

Mae ymatebion i ymgyngoriadau yn debygol o gael eu cyhoeddi. I gadw eich ymateb yn ddienw (gan gynnwys cyfeiriadau ebost) ticiwch y blwch. ☐